## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)(a)

### Y GOFYNION AR GYFER SEILOS

**1.** Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

**2.** Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo;

(b) cael o'i amgylch sianelau sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo; ac

(c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer traenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

**3.** Rhaid i'r tanc elifiant beidio â dal llai na–

(a) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal; ac

(b) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

**4.**—(1) Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) bod wedi'i ddylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987(**1**); neu

(b) bod wedi ei adeiladu gan ddefnyddio asffalt poeth wedi'i droelli yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990(**2**).

(2) Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

**5.** Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

**6.** Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

**7.** Os oes gan y seilo furiau cynnal—

(a) rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi'u cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraffau 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003(**3**);

(b) rhaid i'r seilo beidio â bod wedi'i lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal; ac

(c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

(**1**) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.
(**2**) Dyddiad cyhoeddi: 31Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.
(**3**) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

**8.** Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

**9.** Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi'i ddylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.